**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Bae Caerdydd
CF99 1NA
FinanceCommittee@wales.gov.uk

15 Ionawr 2014

Annwyl Jocelyn

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ardaloedd Menter**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr yn amgáu copi o adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ardaloedd Menter.

Rwyf wedi derbyn yr holl argymhellion a wnaed ac amgaeaf ymateb ysgrifenedig i'r holl argymhellion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ardaloedd Menter.**

**Ionawr 2014**

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried rhyddhau cymaint o wybodaeth â phosibl i'r cyhoedd, gan gynnwys pob gwybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif.**

**Ymateb:** **Derbyn**

Rydym wedi cyflawni cryn gynnydd o safbwynt cyhoeddi rhagor o wybodaeth am yr Ardaloedd Menter. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwefan benodol ar gyfer Ardaloedd Menter Cymru a fyddai'n cynnwys rhagor o wybodaeth am yr amcanion, y dulliau a ddefnyddir a'r cymorth sydd ar gael ymhob Ardal.

Rydym wedi cyhoeddi dogfen wedi'i diweddaru sy'n cynnwys crynodeb o'r wybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif a geir yn y cynlluniau strategol. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ym mis Hydref ac mae ar gael ar wefan Ardaloedd Menter Cymru yn:-

http:/ardaloeddmenter.cymru.gov.uk/

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 2**

**Os mai'r bwriad yw i'r Ardaloedd Menter fod yn gyfrifol am eu cyllidebau eu hunain yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod trefniadau atebolrwydd cadarn yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian.**

**Ymateb:** **Derbyn**

Cyrff cynghori yw Byrddau'r Ardaloedd Menter ac o'r herwydd nid oes ganddynt eu cyllidebau eu hunain. Os bydd eu cylch gorchwyl a'u hatebolrwydd yn newid yn y dyfodol, caiff trefniadau atebolrwydd cadarn eu hystyried bryd hynny.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn sicrhau bod yr Ardaloedd Menter yn ystyried sut orau y gallant sicrhau bod pob busnes yn cael gwybodaeth lawn am y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes.**

**Ymateb:** **Derbyn**

Rydym yn cydweithio'n agos â Byrddau'r Ardaloedd Menter, ein Timau Sector ac â rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod manteision y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes a'r

ffaith ei fod ar gael yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol i'r gynulleidfa darged.

Yng ngham diweddaraf y Cynllun roedd y gwaith yn cynnwys ymgyrch farchnata wedi'i chydgysylltu, dros gyfnod ymgeisio hirach, a oedd yn cynnwys sylw yn y wasg a negeseuon ar gyfer dros 900 o fusnesau o fewn yr Ardaloedd.

Rydym hefyd wrthi'n mireinio ymhellach gronfa ddata o gwmnïau sydd o fewn yr Ardaloedd Menter, fel rhan o'r Arolwg Hydredol sy'n cael ei gynnal. Bydd hyn yn llywio unrhyw waith hybu a gwaith codi ymwybyddiaeth yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 4**

**O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi derbyn yr egwyddor y gallai Llywodraeth Cymru ariannu lwfansau cyfalaf uwch mewn ardaloedd ychwanegol o fewn yr Ardaloedd Menter presennol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried a allai hyn fod yn fuddiol, ac os felly, ymhle.**

**Ymateb:** **Derbyn**

Rydym wedi trafod yn helaeth â Thrysorlys Ei Mawrhydi er mwyn sicrhau Lwfansau Cyfalaf Uwch ar gyfer safleoedd penodol o fewn dros hanner yr Ardaloedd Menter cymwys (tair o'r pump - Glannau Dyfrdwy, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Glyn Ebwy).

Mae peth cyfle i estyn nifer y safleoedd ar gyfer Lwfansau Cyfalaf Uwch, yn unol â'r meini prawf a'r rheolau ynghylch cymorth gwladwriaethol sydd ynghlwm wrth y cynllun. Eto i gyd, byddwn yn ystyried a oes cwmpas ar gyfer ardaloedd ychwanegol, gan nodi'r goblygiadau posibl o ran cost sydd ynghlwm wrth sefyllfa ariannol lle y ceir cyfyngiadau.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn amlinellu amserlen ar gyfer cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad.**

**Ymateb:** **Derbyn**

Cafodd dangosyddion perfformiad ar gyfer Ardaloedd Menter Cymreig eu cyhoeddi cyn toriad y Nadolig. Bydd y dangosyddion hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i fonitro cynnydd mewn meysydd allweddol fel swyddi, buddsoddi, datblygu tir, cymorth ar gyfer busnesau ac ymholiadau. Caiff adroddiad ar y dangosyddion hyn eu cyhoeddi ym mis Mai eleni a phob blwyddyn ar ôl hynny.

Mae targedau cychwynnol ar gyfer 2014/15 hefyd wedi'u cyhoeddi a gallwch eu gweld yn:-

http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/publications/welsh-gov-ezw-key-performance-indicators/?lang=cy

**Goblygiadau Ariannol -** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.